Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr

CYFOETH NATURIOL CYMRU

Penodi Aelod o'r Bwrdd:
Siaradwr Cymraeg sydd â chefndir mewn rheoli'r amgylchedd, y dirwedd neu'r tir

Dyddiad Cau:
4pm Dydd Gwener 30 Ebrill 2021

The Commissioner for Public Appointments

Cynnwys

Prif ffeithiau am y swydd 3

Gwneud cais 5

Manyleb y Person 6

Swyddogaeth a Chyfrifoldebau'r Bwrdd 8

Y broses ddethol 10

Cyfoeth Naturiol Cymru

Prif ffeithiau am y swydd

Diolch am eich diddordeb mewn dod yn aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). CNC yw'r sefydliad cyntaf yn y byd i ddwyn ynghyd lawer o'r dulliau sydd eu hangen i fynd ar drywydd a chymhwyso rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru. CNC yw Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru mwyaf Cymru, a sefydlwyd ar 1 Ebrill 2013. Ochr yn ochr ag ystod eang o gyfrifoldebau gweithredol a rheoleiddiol, dyma brif gynghorydd Llywodraeth Cymru ynghylch adnoddau naturiol.

Mae'r Bwrdd yn rhoi arweiniad ac yn pennu cyfeiriad ac amcanion strategol y sefydliad. Mae'r Bwrdd hefyd yn hyrwyddo safonau uchel drwy gynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian. Mae'n sicrhau bod gweithgareddau CNC yn cael eu cynnal yn effeithlon ac yn effeithiol, gan fonitro perfformiad Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni ei ddyletswyddau, ei nodau, ei amcanion a'i dargedau perfformiad statudol yn llawn.

Rydym yn chwilio am dri aelod newydd o'r Bwrdd i ddechrau ar 1 Medi 2021. Mae'r canllawiau hyn ar gyfer Siaradwr Cymraeg sydd â phrofiad o reoli'r amgylchedd, y dirwedd neu'r tir.

Mae CNC angen pobl ag uchelgais a syniadau a all ymrwymo i fynychu chwe chyfarfod Bwrdd y flwyddyn. Bydd disgwyl hefyd i aelodau'r Bwrdd fod yn aelodau o is-bwyllgorau statudol sy'n cyfarfod 4-6 gwaith y flwyddyn. Mae gan y rôl hon ymrwymiad amser o 36 diwrnod y flwyddyn a caiff ei chynnig fel penodiad cychwynnol o ddwy, tair neu bedair blynedd. Gellir lleoli'r swydd yn unrhyw le yng Nghymru ac mae tâl o £350 y dydd ynghyd â threuliau rhesymol.

Oherwydd pandemig Covid-19 mae llawer o'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhithiol ar hyn o bryd, ond yn y tymor hwy cynhelir y cyfarfodydd yn gyhoeddus mewn gwahanol leoliadau ledled Cymru, a gall rhai ohonynt olygu aros dros nos. Cynhelir cyfarfodydd eraill hefyd drwy gydol y flwyddyn, er enghraifft y rhai sy'n galluogi'r Bwrdd i ddatblygu fel tîm. Trefnir y rhain i leihau'r goblygiadau teithio i'r Bwrdd cyfan.

Mae manyleb y person yn nodi'r sgiliau a'r profiad rydym yn eu ceisio ar gyfer y rôl hon. Ceir rhagor o wybodaeth am rôl a chyfrifoldebau CNC ac aelodau'r Bwrdd isod.

Amserlen dangosol

Digwyddiadau gwybodaeth	10-11am Dydd Llun 12 Ebrill 2021 10-11am Dydd Mawrth 13 Ebrill 2021 6-7pm Dydd Iau 15 Ebrill 2021 10.30-11.30am Dydd Mercher 21 Ebrill 2021 10.30-11.30am Dydd Mawrth 27 Ebrill 2021
Dyddiad cau	4pm Dydd Gwener 30 Ebrill 2021
Rhestr fer*	Mai 2021
Cyfweliadau Panel*	Yr wythnosau sy'n dechrau 21 a 28 Mehefin 2021

* Sylwer, disgwylir cynnal cyfweliadau ar hyn o bryd yn ystod mis Mehefin. Fodd bynnag, oherwydd etholiadau'r Senedd eleni, gall hyn newid, yn dibynnu ar y Llywodraeth newydd. Bydd ymgeiswyr yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd datblygu a chynyddu galluoedd dwyieithog mewn penodiadau cyhoeddus yng Nghymru ac mae'n croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr sy'n dangos eu gallu i weithio yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Cysylltiadau

I wneud cais ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Ar gyfer ymholiadau am y swydd, anfonwch e-bost at Uned Penodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru neu ein hasiantaeth recriwtio Gatenby Sanderson. I archebu lle yn y digwyddiadau gwybodaeth ar gyfer darpar ymgeiswyr, cysylltwch ag Ysgrifenyddiaeth Bwrdd CNC.

Gwneud cais

I wneud cais am y swydd hon, ewch i wefan recriwtio Llywodraeth Cymru a cliciwch ar y swydd sydd gennych ddiddordeb ynddi. Cliciwch 'Gwneud Cais' yn y gornel chwith ar waelod y dudalen. Os hoffech wneud cais ar gyfer y swydd hon yn y Saesneg, defnyddiwch y ddolen 'Newid Iaith / Change Language' yn y gornel dde ar ben y dudalen, er mwyn mynd â chi i fersiwn Saesneg yr hysbyseb hwn, ble y gallwch wneud cais yn y Saesneg.

Y tro cyntaf y byddwch yn gwneud cais, bydd angen i chi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ymgeisio ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith bydd yn rhaid i chi gofrestru, a cewch ddefnyddio hwn i'ch diweddaru a gynnydd hwn neu unrhyw geisiadau eraill y byddwch yn eu gwneud.

Pan fyddwch wedi cofrestru, byddwch yn gallu mynd i'r ffurflen gais. I wneud cais, bydd angen i chi uwchlwytho datganiad personol a CV.

Eich cais

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion cryno o'ch swydd bresennol neu ddiweddaraf, gan nodi am faint o amser y buoch chi yn y swydd. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol blaenorol neu bresennol.

Dylai eich datganiad personol nodi sut yr ydych yn bodloni'r meini prawf ym manyleb y person. Dyma'r manylion a ddefnyddir gan y panel asesu i benderfynu a ydych yn ymgeisydd addas, felly gwnewch y defnydd gorau o hyn. Cadwch eich datganiad personol o fewn 1,500 o eiriau, efallai na fydd y panel yn ystyried unrhyw beth mwy na hyn.

Datganiad Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus fod ag aelodau sy'n adlewyrchu cymdeithas Cymru – pobl o bob cefndir – ar eu bwrdd er mwyn eu helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud gwell penderfyniadau. Dyma pam y mae Llywodraeth Cymru yn annog amrywiaeth eang o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Croesewir ceisiadau yn arbennig gan grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli, gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol.

Cynllun Gwarant Cyfweliad – Yn Gadarn o blaid Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu'r rhaglen Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl ac yn croesawu ceisiadau gan bobl ag anableddau. Mae'r cynllun yn gwarantu cyfweliad i bobl anabl os ydynt yn bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y swydd. Mae'r ffurflen gais hefyd yn eich galluogi i roi manylion unrhyw anghenion neu offer penodol sydd eu hangen arnoch i ddod i gyfweliad.

Cyfoeth Naturiol Cymru

Manyleb y Person

Rydym yn chwilio am dri aelod newydd o'r Bwrdd i ddechrau ar 1 Medi 2021. Mae manyleb y person hwn ar gyfer rôl Siaradwr Cymraeg sydd â phrofiad o reoli'r amgylchedd, y dirwedd neu'r tir.

Manyleb y person

Mae angen i bob ymgeisydd ddangos y sgiliau a'r ymddygiadau canlynol:

- Parchu a deall egwyddorion atebolrwydd a llywodraethu da
- Crebwyll wrth wneud penderfyniadau cymhleth
- Y gallu i ddehongli a herio adroddiadau ariannol a materion perfformiad ehangach
- Ffocws ar genedlaethau'r dyfodol
- Ymrwymiad amlwg i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Hefyd, rydym yn chwilio am bobl sy'n bodloni'r sgiliau canlynol:

- Profiad o reoli'r amgylchedd, y dirwedd neu'r tir
- Naill ai proffil cyhoeddus neu brofiad cyfathrebu
- Siaradwr Cymraeg rhugl.

Cymhwysedd

Rydych yn gymwys i gymryd rhan os ydych yn gallu rhoi tystiolaeth o'ch profiad yn erbyn y sgiliau a'r ymddygiadau sydd wedi'u nodi uchod.

Dylai ymgeiswyr fod yn bersonau sy'n ymddwyn bob amser mewn ffordd fydd yn cynnal hyder y cyhoedd.

Noder, caiff unigolyn ei ddatgymhwyso o'i benodi os yw:

- Wedi'i farnu'n euog o unrhyw drosedd yn y 5 mlynedd flaenorol yn y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw ac wedi'i ddedfrydu i garchar (wedi'i ohirio ai peidio) am gyfnod o dri mis neu fwy heb fod dewis o ddiryw;
- Yn destun gorchymyn cyfyngiadau methdalu neu orchymyn dros dro neu wedi gwneud cyfansoddiad neu drefniant â chredydwyr;
- Unigolion sydd wedi cael swydd flaenorol â CNC wedi'i therfynu'n gynnar oherwydd nad oedd yn fanteisiol i fuddiannau neu reolaeth dda y corff fod yr unigolyn yn parhau yn y swydd
- Unrhyw un sy'n destun gorchymyn datgymhwyso o dan Ddeddf Datgymhwyso Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986;
- Yn un o gyflogeion Cyfoeth Naturiol Cymru

Dylai ymgeiswyr nodi hefyd fod bod yn aelod o'r Corff yn eu datgymhwyso rhag bod yn aelod o Senedd Cymru o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Datgymhwyso) 2015.

Gwrthdaro Buddiannau

Gofynnir i chi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sydd gennych a allai, neu y canfyddir eu bod yn gwrthdaro â swyddogaeth a chyfrifoldebau aelod o Cyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnwys unrhyw fuddiannau busnes a swyddogaethau ag awdurdod y tu hwnt i'r swyddogaeth yn Cyfoeth Naturiol Cymru.

Caiff unrhyw wrthdaro buddiannau eu harchwilio yn y cyfweliad. Os cewch eich penodi, bydd yn rhaid i chi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Diwydrwydd Dyladwy

Bydd gwiriadau diwydrwydd dyladwy yn cael eu cynnal ar ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yn y cam sifftio a chaiff unrhyw ganfyddiadau eu codi gan y panel cynghori ar asesiadau yn ddiweddarach yn y broses recriwtio.

Safonau bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl i chi ddangos safonau uchel o ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd yn ofynnol i bob ymgeisydd llwyddiannus danysgrifio i'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus.

Bydd Gatenby Sanderson, asiantaeth chwilio gweithredol yn cefnogi'r ymgyrch recriwtio hon. Oherwydd hynny, bydd manylion ymgeiswyr yn cael eu rhannu fel y bo'n briodol, yn benodol i lywio a chyflawni'r broses recriwtio hon.

Swyddogaeth a Chyfrifoldebau'r Bwrdd

Mae'r adnoddau naturiol sydd gennym yng Nghymru – ein coed, moroedd, bryniau, caeau, dŵr a bywyd gwyllt – yn hanfodol ar gyfer ein dyfodol. Hebddynt, ni fyddai gennym aer glân i'w anadlu na dŵr i'w yfed. Maent yn un o brif ysgogwyr ein heconomi ac yn helpu i gynnal iechyd a llesiant ein pobl ac yn denu ymwelwyr i Gymru.

Mae galw cynyddol ar yr adnoddau hyn – gan ffactorau amgylcheddol fel newid yn yr hinsawdd, a chan ffactorau cymdeithasol ac economaidd. Mae'n hanfodol felly sicrhau y caiff ein hadnoddau amgylcheddol eu rheoli yn y modd gorau posibl, i sicrhau gwerth am arian a chyflawni'r canlyniadau gorau. Mae angen gwneud hyn mewn ffyrdd sy'n gynaliadwy, er mwyn peidio â gwastraffu asedau naturiol Cymru ac er mwyn eu cynnal ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Atebolrwydd

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru, fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, yn atebol i Weinidogion Cymru trwy'r Gweinidogion Noddi (Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig a Gweinidog yr Amgylchedd ar hyn o bryd) ac yn destun craffu gan Bwyllgorau perthnasol y Cynulliad. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod CNC yn arfer ei swyddogaethau deddfwriaethol yn briodol ac yn effeithiol. Mae hefyd yn atebol i Weinidogion Cymru am sut y mae'n cyflawni yn erbyn y llythyr cylch gwaith blynyddol.

Bwrdd CNC

Bydd y Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd ac un ar ddeg o aelodau, ac un ohonynt yw'r Prif Weithredwr. Wrth ddarparu arweinyddiaeth effeithiol i'r sefydliad, mae'r Bwrdd, ar y cyd ac yn unigol, yn glynnu at Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan.

Yn ogystal ag egwyddorion Nolan, bydd angen i'r Bwrdd sicrhau hefyd bod y sefydliad yn bodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf yn rhoi ar waith ddyletswydd llesiant, sef i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Ar y cyd, dylai'r Bwrdd feddu ar gyfuniad o sgiliau sy'n diwallu anghenion busnes presennol CNC a'u nodau ar gyfer y dyfodol. Yn ddelfrydol, mae aelodau'r Bwrdd yn bobl ymarferol a strategol, a chanddynt feddwl cadarn, sy'n gallu cynnig adolygiad beirniadol, ac sy'n fedrus wrth roi arweiniad ac adborth uniongyrchol, yn ogystal â chefnogaeth pan fo'i hangen. Mae nhw'n mynegi eu barn ac yn cwestiynu yn hytrach na derbyn; mae nhw'n ddigon dewr i ofyn cwestiynau anodd mewn modd adeiladol ond gan fod yn ymwybodol bod CNC yn sefydliad mawr a chymhleth y mae angen ei arwain o ddydd i ddydd gan y Weithrediaeth. Felly mae'n rhaid i aelodau'r Bwrdd fod â diddordeb mewn gwneud cyfraniad ystyrlon i ddatblygiad sefydliadol a gallu ymdopi â'r pwysau o weithredu yn llygad y cyhoedd.

Dylai'r Bwrdd weithredu fel tîm a phan fydd penderfyniadau wedi'u gwneud mae'n rhaid i aelodau unigol ymddwyn yn golegol a chefnogi penderfyniadau'r Bwrdd yn ei gyfanrwydd a'r swyddogion Gweithredol wrth iddyn nhw roi cyfarwyddyd y Bwrdd ar waith, ni waeth beth fo'r heriau.

Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae bod yn aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnig cyfle i chi weithio gyda, ac ar ran pobl sy'n angerddol ynglŷn ag adnoddau naturiol Cymru. Mae CNC yn ceisio gwella'n barhaus i greu sefydliad sy'n perfformio dda i gyflawni ei phwrpas uchelgeisiol.

Y broses ddethol

Bydd y panel asesu cynghorol yn asesu datganiadau personol a CV yr ymgeiswyr er mwyn penderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf y swydd orau, a phwy fydd yn cael gwahoddiad i gyfweliad. Ni fydd y panel yn dibynnu ar unrhyw beth heblaw'r wybodaeth yr ydych yn ei rhoi yn eich CV a oes gennych y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen.

Bydd y panel yn cael ei gadeirio gan Tim Render, Cyfarwyddwr Arweiniol yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru. Yn ymuno ag ef bydd a Syr David Henshaw, Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru, Alison Thorne, aelod o Fwrdd Bwrdd Chwaraeon Cymru a Gwenllian Roberts, Prif Swyddog Rhanbarthol – Gogledd, Llywodraeth Cymru. Bydd Gatenby Sanderson, asiantaeth chwilio weithredol yn cefnogi'r panel gyda'r broses ddethol.

Mae'n bosibl y caiff eich cais ei roi ar restr hir, yn amodol ar faint o geisiadau a ddaw i law, cyn creu'r rhestr fer. Fodd bynag, bydd eich cais yn cael ei rannu gyda'r panel cynghori ar asesiadau.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel mewn sefyllfa ddiwedd mis Mai i benderfynu pwy a gaiff wahoddiad i gyfweliad. Y bwriad ar hyn o bryd yw cynnal cyfweliadau ym mis Mehefin. Fodd bynnag, oherwydd etholiadau'r Senedd eleni, mae'n bosibl y bydd hyn yn newid, gan ddibynnu ar y Llywodraeth newydd. Byddwn yn hysbysu'r ymgeiswyr o hyn.

Os ydych wedi ymgeisio trwy gynllun gwarantu cyfweliad a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol gofynnol ar gyfer y swydd, cewch chithau eich gwahodd i gyfweliad.

Ein bwriad yw cynnal y cyfweliadau ar-lein oherwydd Covid-19. Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn holi ynglŷn â'ch sgiliau a'ch profiad ac yn gofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y swydd.

Caiff ymgeiswyr sy'n briodol i'w penodi ym marn y panel, yn cael eu hargymell i'r Gweinidogion a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Mae'n bosibl y bydd y Gweinidog yn dewis cyfarfod â'r ymgeiswyr sy'n briodol i'w penodi cyn gwneud penderfyniad. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad penodi terfynol.

Ymholiadau a chwynion

Os oes gennych ymholiadau ynglŷn â'ch cais, neu os nad ydych yn fodlon â'r broses recriwtio, cysylltwch ag Uned Penodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru.